# PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, Y RHYL, Dydd Iau, 16 Ionawr 2014 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr William Cowie, Colin Hughes, Geraint Lloyd-Williams, Peter Owen, Dewi Owens, Arwel Roberts a/ac Gareth Sandilands.

Aelod Arweiniol i fod yn bresennol yn ôl gofyniad y Pwyllgor:- Cynghorydd Eryl Williams.

**Aelodau Cyfetholedig:-** Mrs G. Greenland, Ms D. Houghton, Ms N. Lewis, Dr. D. Marjoram a Mr G. Williams.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwyr Gweithredol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Archwiliad Mewnol (IB), Pennaeth Addysg (KE), Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion: Uwchradd (JM), Rheolwr Rhaglen: Moderneiddio Addysg ( JC), Rheolwr Prosiect Canolbwynt GDd (JE), Uwch Swyddog Trosedd Amgylcheddol (KH), Cynghorydd Iechyd a Diogelwch (VR), Rheolwr Tîm Partneriaethau a Chymunedau (LG), Cydlynydd Archwilio (RE) a Swyddog Gweinyddol (CIW).

Yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd D. Simmons, Cadeiriodd y Cynghorydd A Roberts, Is-Gadeirydd y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelod Cyfetholedig Mr Gareth Williams i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Meirick Davies, Richard Davies a/ac David Simmons

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Nid ddatganwyd unrhyw gysylltiadau personol na chysylltiadau sy'n rhagfarnu gan unrhyw Aelodau mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod.

## 3 MATERION BRYS GYDA CHYTUNDEB Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ddydd Iau 12 Rhagfyr 2013.

Materion yn codi: -

5. Adeiladau Rhestredig mewn Perygl - Cadarnhaodd y Cydlynydd Archwilio bod copi o'r llythyr cefnogi a anfonwyd gan y Cadeirydd at y Gweinidog dros Chwaraeon a Diwylliant, yn cymeradwyo'r safbwyntiau a fynegwyd gan swyddogion mewn ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol ar y Bil Treftadaeth Newydd, a oedd yn tynnu sylw at y risgiau sy'n gysylltiedig â'r agwedd gorfodi'r ddeddfwriaeth, wedi cael eu cynnwys yn y Diweddariad Gwybodaeth

8. Adroddiad Perfformiad Cynllun Corfforaethol – Chwarter 2 2013/14 – Mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth Dr D. Marjoram ynglŷn â darparu adroddiad cynhwysfawr ar gyflwr adeiladau ysgolion ac Ystâd yr Ysgol yn gyffredinol, eglurodd y Cydlynydd Archwilio byddai'r adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor ynglŷn â Data Llefydd Ysgol yn cychwyn y broses o archwilio cyflwr Ystâd yr Ysgol.

9. Rhaglen Waith Archwilio - Cytunodd y Pwyllgor dylid penodi'r Cynghorydd C. Hughes fel cynrychiolydd wrth gefn y Pwyllgor ar y Bwrdd Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol.

***PENDERFYNWYD:-***

*(A) cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir, a*
*(B) bod y Cynghorydd Colin Hughes yn cael ei benodi fel Aelod wrth gefn y Pwyllgor ar y Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chymunedol.*

## 5 CYNLLUN GWEITHREDU ESTYN

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Addysg (PA), a oedd yn manylu ar y cynnydd a wnaed mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan Estyn yn dilyn arolwg 2012, eisoes wedi'i ddosbarthu.

Rhoddodd y PA grynodeb o'r adroddiad a chadarnhaodd fod prif ganfyddiadau Adroddiad Estyn yn dangos bod yr Awdurdod wedi cyflawni 'Da' ar gyfer y tri chwestiwn allweddol a oedd yn cynnwys Pa mor dda yw deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Roedd yr holl ddangosyddion eraill hefyd wedi derbyn safon 'Da' gydag 3.1 'Arweinyddiaeth' a dderbyniodd safon 'Ardderchog'.

Atgoffwyd yr Aelodau bod Estyn wedi gwneud dau argymhelliad: -

- Argymhelliad 1: Gwella cywirdeb Asesiadau Athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3; ac

- Argymhelliad 2: Mewn perthynas â'r Rhaglen Partneriaeth ac adnabod pob gwasanaeth plant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych a sefydlu system effeithiol i fesur effaith y gwasanaethau hyn i gynorthwyo'r Awdurdod a'i bartneriaid i benderfynu a yw'r gwasanaethau hyn yn cynnig gwerth am arian.

Roedd y cynnydd hyd yma yn erbyn y ddau argymhelliad, wedi'i nodi yn yr atodiadau i'r adroddiad. Roedd yr Awdurdod ar hyn o bryd ar groesffordd wrth ymateb i'r argymhellion o ganlyniad i gyfuniad o'r rhaglen effeithlonrwydd, y gwaith cydweithio rhanbarthol a chynlluniau ar gyfer asesiad Estyn yng nghyd-destun y newidiadau sydd ar y gweill yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Yn ystod y chwe mis nesaf byddai'r swyddogion yn gwerthuso'r gwaith a wnaed hyd yn hyn, asesu ei effeithiolrwydd ac adolygu ymagwedd yr Awdurdod tuag at gyflawni'r argymhellion yn ôl yr adnoddau sydd ar gael, ac eglurwyd bod rhai o'r gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc a holwyd gan Estyn yn 2012 yn awr yn ddarostyngedig i'r rhaglen arbedion effeithlonrwydd. Amlygwyd pwysigrwydd yr angen i gydnabod y newid yn y broses arolygu gan y PA, gan gyfeirio'n benodol at rôl y Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol.

Cafwyd cadarnhad bod gwella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ysgolion yn un o Flaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2012-17, a thrwy fonitro cyflwyno'r Cynllun Gweithredu gallai'r Pwyllgor gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni rhan o'r uchelgais uchod. Er mwyn lleihau unrhyw risgiau i gefnogaeth a her ysgolion yn ysgolion Sir Ddinbych, byddai swyddogion yn monitro ac asesu ansawdd y gefnogaeth ranbarthol oddi wrth GwE. Byddai cyfle i gryfhau'r broses safoni ar gyfer Asesiadau Athrawon CA3, a dylai hyn wella ansawdd y safoni allanol, sicrhau dilyniant a chydraddoldeb Asesiadau Athrawon ar draws Gogledd Cymru.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, awgrymwyd bod yr adroddiad monitro nesaf yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar ddiwedd tymor yr haf 2014. Cytunodd y Pwyllgor a gofynnodd i'r adroddiad gynnwys manylion am y camau a gymerwyd gan yr Awdurdod i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gwella cywirdeb asesiadau athrawon yng Nghyfnod Allweddol 3 a'u heffeithiolrwydd o ran cyrraedd y nod hwn, ynghyd â thystiolaeth bod GwE yn defnyddio Moodle i gynnal deunyddiau enghreifftiol (PDF) â lefelau yn yr holl bynciau a lefelau, a hefyd canlyniadau'r archwiliad sy'n mynd rhagddo o'r holl wasanaethau sydd ar gael i blant a phobl ifanc yn y Sir ac effeithiolrwydd y system a sefydlwyd i fesur effaith a gwerth am arian y gwasanaethau hynny ar blant a phobl ifanc y Sir.

Atebodd y PA i gwestiynau gan Dr Marjoram ac eglurodd y byddai manylion o'r gwelliannau i fynd i'r afael â'r diffygion yng nghywirdeb Asesiadau Athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad nesaf, a byddai hyn yn cynnwys mesuriadau ar gyfer gwella a pherfformiad ym mhob un o'r Cyfnodau Allweddol. Rhoddodd hefyd sicrwydd na fyddai ardaloedd gwledig yn ysgwyddo baich y toriadau arfaethedig yn y gyllideb, gan fod y Cyngor yn canolbwyntio ar ddileu gwaith seilo a sicrhau y caiff y gwasanaeth gorau ei ddarparu ar gyfer yr holl drigolion ar draws y Sir.

Mynegodd y Cynghorydd C. Hughes y farn y dylid cyflwyno'r adroddiad mewn perthynas â'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella (GWE) Ysgolion Rhanbarthol yn i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad. Esboniodd y Cydlynydd Archwilio fod Grŵp y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio wedi dyrannu mater hwn i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau i'w ystyried, a chadarnhaodd y gallai aelodau etholedig a

chyfetholedig fod yn bresennol yn y cyfarfod. Byddai hefyd croeso i aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor fynychu. Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD:-***

*(A) yn amodol ar y sylwadau a wnaed, bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma wrth fynd i'r afael ag argymhellion Estyn.*
*(B) bod y Pwyllgor yn parhau i fonitro gweithrediad y Cynllun Gweithredu yn rheolaidd tan arolwg nesaf Estyn o ddarpariaeth gwasanaethau addysg yr Awdurdod.*
*(C) bod yr adroddiad monitro nesaf yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar ddiwedd tymor yr haf 2014.*
*(d) bod yr adroddiad yn cynnwys manylion am y camau a gymerwyd gan yr Awdurdod i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gwella cywirdeb asesiadau athrawon yng Nghyfnod Allweddol 3 a'u heffeithiolrwydd o ran cyrraedd y nod hwn, ynghyd â thystiolaeth bod GwE yn defnyddio Moodle i gynnal deunyddiau enghreifftiol (PDF) â lefelau yn yr holl bynciau a lefelau, a*
*(E) bod yr adroddiad hefyd yn cynnwys canlyniadau'r archwiliad sy'n mynd rhagddo o'r holl wasanaethau sydd ar gael i blant a phobl ifanc yn y Sir ac effeithiolrwydd y system a sefydlwyd i fesur effaith a gwerth am arian y gwasanaethau hynny ar blant a phobl ifanc y Sir.*

## 6 CANLYNIADAU ARHOLIADAU CA4

Roedd copi o adroddiad gan Swyddog Effeithiolrwydd Perfformiad Ysgol: Uwchradd (SEPO: S), a oedd yn manylu ar berfformiad canlyniadau arholiadau allanol ysgolion Sir Ddinbych yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Darparodd y SEPO:S grynodeb o'r adroddiad a oedd yn dadansoddi canlyniadau yn erbyn gwybodaeth a pherfformiad a feincnodwyd yn erbyn Awdurdodau Lleol eraill (ALl) ac yn darparu gwybodaeth ynglŷn â pherfformiad asesiadau athrawon ac arholiadau allanol ysgolion Sir Ddinbych. Roedd y rhan fwyaf o'r dangosyddion allweddol yn CA4 ar gyfer cymwysterau allanol wedi gwella. Fodd bynnag, mae'r trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg, Cymraeg a Mathemateg wedi gostwng ychydig oedd wedi effeithio ar y Dangosydd Pwnc Craidd (DPC). Roedd Safleoedd Asesiadau ac Arholiadau ar gyfer 2011/13 wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

Eglurodd mai un o'r dangosyddion perfformiad allweddol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 oedd y Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg, Cymraeg a Mathemateg ac roedd data a gwybodaeth briodol wedi eu cynnwys yn Atodiad 1. Roedd manylion yr ystadegau Trothwy Lefel 2 yn ymwneud ag ysgolion unigol wedi eu cynnwys yn yr adroddiad, ynghyd â chanlyniadau dros dro Lefel 2 ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn, Dinbych.

Roedd manylion y Bandiau Uwchradd wedi cael eu darparu a chadarnhaodd y SEPO:S nad oedd unrhyw ysgolion Sir Ddinbych ym mandiau is 4 a 5 yn 2013. Roedd sgôr bandio gyfartalog yr ALl yn rhoi Sir Ddinbych y pumed yng Nghymru yn 2013 i lawr o ail yn 2012. Y dangosydd perfformiad ar gyfer ôl-16 oedd Trothwy

Lefel 3, a oedd wedi parhau'n ddigyfnewid ar 96.8% am y tair blynedd diwethaf, yn uwch na chyfartaledd Cymru o 96.5% ac yn rhoi Sir Ddinbych y nawfed yng Nghymru. Roedd canlyniadau Lefel A wedi gwella yn ysgolion uwchradd Sir Ddinbych fel y manylir yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

Roedd nifer disgyblion Sir Ddinbych a oedd wedi'u cofrestru ar gyfer cymwysterau ôl-16 wedi cynyddu yn 2013 i 463 o'u cymharu â 439 yn 2012. Roedd y gwelliant yng nghanlyniadau CA4 a gwaith partneriaeth ôl-16 wedi cyfrannu at y cynnydd hwn. Roedd myfyrwyr Chweched y Rhyl wedi cyflawni 94% ar gyfer Trothwy Lefel 3 o'u cymharu â 97% o ddisgyblion o ysgolion uwchradd Sir Ddinbych. Fodd bynnag, nid oedd y canlyniadau hyn wedi cyfrannu at ddangosyddion yr ALl.

Darparwyd yr ymatebion canlynol gan y swyddogion i gwestiynau a materion a godwyd gan Aelodau:-

- Ymatebodd y SEPO:S a'r PA i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd G. Sandilands ac esboniodd y rhesymau dros y dirywiad mewn cyrhaeddiad yn Ysgol Uwchradd Prestatyn. Cadarnhawyd bod gostyngiad wedi'i ragweld, a bod cymorth ychwanegol wedi ei ddarparu i'r ysgol i liniaru'r risg. Fodd bynnag, roedd y dirywiad wedi bod yn fwy na'r disgwyl. Serch hynny roedd y swyddogion yn hyderus y byddai gwelliannau o ran canlyniadau yn cael eu cyflawni drwy weithio'n agos gyda'r Pennaeth.
- Hysbyswyd yr Aelodau bod y dull Her Llundain yn cael ei ddefnyddio o fewn ysgolion y sir fel ag yr oedd ymgynghorwyr, gyda'r bwriad o weithio gyda Phenaethiaid a Phenaethiaid Adrannau i gyflawni gwelliannau cyflym.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd D. Owens at y gwelliannau yn Ysgol Uwchradd y Rhyl. Eglurodd y PA fod yr Ysgol wedi bod yn uchelgeisiol a bod llawer o'r llwyddiant a gyflawnwyd wedi deillio o arweinyddiaeth y Pennaeth a gwaith effeithiol yr Ysgolion Cynradd yn ardal y Rhyl.
- Esboniodd SEPO:S bod y problemau a gafwyd yn St Ffraid, Dinbych, gan arwain at ostyngiad o 7%, wedi deillio o faterion yn ymwneud â mathemateg:. Cyfeiriodd at y gwaith cymwys a wnaed gan y Pennaeth Dros Dro a'r gefnogaeth a ddarparwyd ar gyfer yr ysgol, yn enwedig yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.
- Mynegodd y Cynghorydd C. Hughes bryder am yr ystadegau meincnodi mewn perthynas ag Ysgol Uwchradd Dinbych. Eglurodd y PA bod meysydd sy'n peri pryder yn Ysgol Uwchradd Dinbych yn ymwneud â materion cwricwlwm hanesyddol. Cadarnhawyd bod y Pennaeth wedi gweithio'n agos gyda Phenaethiaid yr ysgolion cynradd porthi i gymryd y camau priodol i wella safonau a'r dangosyddion perthnasol.
- Cyfeiriodd Dr D. Marjoram at y gwaith da sy'n cael ei wneud yn yr ysgolion arbennig o ran canlyniadau arholiadau a chymwysterau a gyflawnwyd. Fodd bynnag, mynegodd bryder nad oedd gan Lywodraeth Cymru (LlC) unrhyw fethodoleg ar gyfer graddio ysgolion arbennig.
- Mewn ymateb i faterion a godwyd gan yr Aelodau, gofynnodd y Pwyllgor am ddata, ar ffurf adroddiad gwybodaeth, ar ganlyniadau arholiadau ac asesiadau athrawon ar ddisgyblion sy'n mynychu Ysgolion Arbennig y Sir, disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu addysg prif ffrwd, disgyblion a addysgir yn y cartref, plant/ pobl ifanc a leolir y tu allan i'r Sir, a'r rhai sy'n mynychu ysgolion arbenigol y tu allan i'r Sir.

Ymatebodd y Cynghorydd E.W. Williams i gwestiwn gan y Cynghorydd G. Sandilands a rhoi manylion am y ddarpariaeth cyllid arfaethedig ar gyfer gwasanaethau addysg yng ngoleuni'r toriadau yn y gyllideb. Cyfeiriodd at y ddarpariaeth yn y gyllideb i ddiogelu gwelliant tymor hir mewn ysgolion a thynnodd sylw at y pwysigrwydd a'r angen i fonitro a chynnal perfformiad yn ysgolion Sir Ddinbych.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

**PENDERFYNWYD -** bod y Pwyllgor:-

(a) yn amodol ar sylwadau'r Aelodau, yn derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.
(b) gofyn am ddata, ar ffurf adroddiad gwybodaeth, ar ganlyniadau arholiadau ac asesiadau athrawon ar ddisgyblion sy'n mynychu Ysgolion Arbennig y Sir, disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu addysg prif ffrwd, disgyblion a addysgir yn y cartref, plant/ pobl ifanc a leolir y tu allan i'r Sir, a'r rhai sy'n mynychu ysgolion arbenigol y tu allan i'r Sir a
(c) llongyfarch staff addysg a disgyblion ar y canlyniadau a gyflawnwyd.

## 7 DATA LLEOEDD YSGOL

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (HCES), a oedd yn rhoi gwybodaeth am leoedd i ddisgyblion, rhagamcanion y dyfodol, cyflwr ac addasrwydd ysgolion a'r nifer o unedau symudol sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Eglurodd Rheolwr y Rhaglen: Moderneiddio Addysg ( PM: ME) bod defnyddio'r Fframwaith Polisi Moderneiddio Addysg wedi arwain y Cyngor i wneud nifer o benderfyniadau anodd ynglŷn â dyfodol nifer o ysgolion.

Cymeradwyodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol ym mis Hydref, 2012, a oedd yn cynnwys yr ymrwymiad i "Wella Perfformiad mewn Addysg ac Ansawdd ein Adeiladau Ysgolion". Roedd yr ymrwymiad hwn yn cynnwys cynigion cyllid i fuddsoddi tua £96m yn ystâd yr ysgol i wella ansawdd adeiladau ysgol. Sefydlwyd Rhaglen Moderneiddio Addysg glir ym mis Rhagfyr 2012 gyda'r nod o gyflwyno'r uchelgais hwn. Roedd manylion am sut byddai'r Rhaglen yn cael ei chyflwyno, y sefyllfa bresennol o ran lleoedd gwag a niferoedd mewn ysgolion, gwybodaeth am brosiectau Ysgolion yr 21ain Ganrif a ariennir a meysydd blaenoriaeth eraill wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a'r atodiadau cysylltiedig.

Byddai'r Cynllun Corfforaethol o bosibl yn caniatáu i £23miliwn pellach gael ei fuddsoddi tuag at weithredu canfyddiadau adolygiadau ardal a phrosiectau adeiladau ysgolion eraill a gwaith gwella. Nid oes unrhyw benderfyniadau wedi eu gwneud ynghylch lle y byddai'r buddsoddiad hwn yn cael ei wneud.

Darparwyd yr ymatebion canlynol gan y PM:ME i gwestiynau a materion a godwyd gan Aelodau:-

- Darparwyd manylion ar y defnydd a chael gwared yn y dyfodol ar ystafelloedd dosbarth symudol ac unrhyw oblygiadau ariannol cysylltiedig. Eglurodd y Cynghorydd E.W. Williams fod LlC wedi nodi ei fwriad i gosbi awdurdodau am ddefnyddio ystafelloedd dosbarth symudol.
- Dwedodd y PM:ME nad oedd y ddwy ysgol arbennig wedi eu rhestru oherwydd y gwahanol fethodoleg a'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer asesu lleoedd i ddisgyblion yn yr ysgolion hynny.
- Awgrymodd y Cynghorydd E.W. Williams bod yr Aelodau yn gofyn am eglurhad gan y AC priodol ynghylch dynodi ysgolion arbennig rhanbarthol, gan gyfeirio'n benodol at effaith bosibl yr adolygiadau ffiniau arfaethedig a'r goblygiadau posibl ar gyfer darparu gwasanaeth yn Ysgol Plas Brondyffryn, Dinbych.
- Eglurodd y PM:ME byddai’r rhagamcanion cyfradd genedigaethau yn cael eu hadolygu gan gynnwys yr heriau a gyflwynir gan y duedd bresennol ar i fyny a ffactoreiddio yn natblygiad y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).
- Amlinellodd y Cynghorydd E.W. y ffactorau a'r ystadegau a ystyriwyd mewn perthynas â maint ysgolion gwledig. Cyfeiriodd at strategaeth ariannu’r Awdurdod y byddai'n rhaid ei dilyn pe byddai darpariaeth gyllid yn cael ei sicrhau gan LlC yn y dyfodol ar gyfer prosiectau sydd ar y gweill.
- Amlygwyd yr anawsterau mewn perthynas â dosbarthu ysgolion Saesneg, Cymraeg a dwyieithog gan y Cynghorydd E.W. Williams. Cyfeiriodd y PM:ME at y gwaith a wnaed gan Grŵp Strategol Cymru mewn perthynas â darparu sicrwydd ansawdd o ran dosbarthiad ysgolion.
- Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd C. Hughes ynghylch â’r capasiti arfaethedig yn ardal Dinbych, cyfeiriodd y Cynghorydd E.W. Williams at y Cynllun Cyfalaf a oedd yn darparu potensial ar gyfer buddsoddi ar gyfer darparu cyfleusterau addysg gwell ym mhob ardal.
- Mewn ymateb i faterion a godwyd, cytunodd y Pwyllgor y byddai adroddiad gwybodaeth pellach yn cael ei ddarparu yn manylu ar gyflwr ystâd ysgolion y Sir.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD -***

*(A) derbyn yr adroddiad, yn amodol ar sylwadau'r Aelodau yn nodi'r sefyllfa a'r camau sy'n cael eu cymryd fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol i wella cyflwr cyffredinol yr ysgolion yn Sir Ddinbych, a*
*(B) bod adroddiad gwybodaeth pellach yn cael ei darparu yn manylu ar gyflwr ystâd ysgolion y Sir.*

## 8 PERFFORMIAD SIR DDINBYCH AR FATERION TIPIO ANGHYFREITHLON

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (HHES), a oedd yn nodi sut caiff tipio anghyfreithlon ei adrodd a'i drin yn Sir Ddinbych, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Darparodd y Rheolwr Prosiect: Canolbwynt Gogledd Ddwyrain (PMNEH) gyflwyniad ac esboniodd y rhesymau am yr adroddiad fel y nodwyd yn yr adroddiad ei hun.

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) oedd yn gweinyddu’r gronfa ddata 'Flycapture' yr oedd holl Gynghorau Cymru yn bwydo eu hystadegau tipio anghyfreithlon iddi. CNC oedd yn rhagnodi’r gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno'r data, gan gynnwys beth ddylid, ac na ddylid, gael ei gyfrif fel digwyddiad tipio anghyfreithlon. Fodd bynnag, roedd cynghorau unigol yn parhau i ddefnyddio gwahanol ddulliau i gasglu a phrosesu eu hystadegau eu hunain, ac roedd hyn yn effeithio ar gymaroldeb y data a gyhoeddwyd. Mae enghreifftiau o'r ffyrdd gwahanol y mae cynghorau unigol yn cofnodi eu digwyddiadau tipio anghyfreithlon wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Ymatebodd yr Uwch Swyddog Troseddau Amgylcheddol (SECO) i gwestiynau gan Aelodau ac eglurodd mai dim ond y gwahanol ddulliau casglu a phrosesu data a ddefnyddir gan gynghorau allai egluro’r amrywiadau enfawr yn nifer y digwyddiadau a gofnodwyd, fel y manylwyd yn yr adroddiad. Ni ellid egluro’r amrywiadau hyn gan wahaniaethau demograffig na gwahaniaethau ymddygiad a arsylwyd. Cadarnhaodd fod y Tîm Troseddau Amgylcheddol wedi cydnabod y ffenomenon ac wedi pwyso ar CNC am drefn adrodd fwy cyson. Os nad yw cynghorau yn casglu data mewn modd cyson, ni fyddai adroddiad blynyddol CNC yn dangos cymariaethau tebyg, ac efallai byddai’r defnydd o ystadegau fel mesur perfformiad yn ddiffygiol. Roedd cymhariaeth â chynghorau eraill Gogledd Cymru wedi cael eu hymgorffori yn yr adroddiad.

Roedd digwyddiadau Sir Ddinbych ar gyfartaledd tua 2 i 2.5 gwaith yn uwch na'r niferoedd a oedd yn cael eu hadrodd gan gynghorau eraill Gogledd Cymru gan fod Sir Ddinbych yn fwriadol ceisio nodi pob un digwyddiad o wastraff sy’n cael ei dipio’n anghyfreithlon, bod hynny ar dir cyhoeddus neu breifat, a prun a’i pheidio yr oedd yn cael ei adrodd gan aelod o'r cyhoedd. Roedd cyfraddau adrodd uchel yn cael ei ystyried fel rhagofyniad ar gyfer lleihau gweithgaredd tipio anghyfreithlon gwirioneddol a oedd yn egwyddor bwysig.

Roedd manylion yn ymwneud â thueddiadau hanesyddol Sir Ddinbych wedi ei gynnwys yn yr adroddiad. Eglurodd y SECO byddai'r Tîm Gorfodaeth tipio anghyfreithlon yn hoffi symud o system CRM y Cyngor i symud gofnodi ddaearyddol. Byddai hyn yn symleiddio'r dulliau o brosesu’r holl faterion strydlun ac yn helpu gyda'r dadansoddiad o ddigwyddiadau yn ôl lleoliad, a fyddai'n darparu ar gyfer targedu gorfodaeth yn fwy effeithiol. Roedd CNC hefyd wedi mynegi awydd i symud i system ddaearyddol ac ar hyn o bryd yn datblygu 'ap' i gynorthwyo gyda hyn.

Amlygodd y SECO yr angen i wella categoreiddio digwyddiadau ac i ynysu achosion o dipio anghyfreithlon gwirioneddol, a'r rhai yr oedd gan y Cyngor ddyletswydd i’w glanhau. Roedd hyn ar hyn o bryd yn cael ei wneud drwy ddadansoddiad eilaidd unigol, y teimlwyd y dylai fod yn rhan o brosesau CRM arferol y Cyngor.

Amlinellwyd pwysigrwydd Strategaeth Gorfodaeth Sir Ddinbych ac roedd yr ymchwiliadau a/ neu erlyniadau dilynol wedi arwain at effaith ataliol sylweddol, a gafodd ei ystyried i fod yn ffactor hollbwysig wrth wneud Sir Ddinbych yn sir lân a dymunol.

Llongyfarchodd a diolchodd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor i'r Tîm Amgylchedd am y gwaith a wnaed ac yna:

***PENDERFYNWYD** - yn amodol ar sylwadau'r Aelodau, bod y Pwyllgor: -*

*(a) yn cefnogi dull cyfredol y Cyngor o gofnodi digwyddiadau tipio anghyfreithlon;*
*(b) cefnogi parhau â pholisi'r Cyngor o orfodaeth drylwyr ar faterion tipio anghyfreithlon:*
*(c) cefnogi'r cynnig dylai Sir Ddinbych barhau i lobïo Cyfoeth naturiol Cymru ynglŷn ag ansawdd y data 'Flycapture' sy'n cael ei gasglu ar draws Cymru; a*
*(d) cytuno bod Cadeirydd y Pwyllgor yn ysgrifennu at Gadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ailadrodd pryderon y Pwyllgor mewn perthynas ag ansawdd a dibynadwyedd data 'Flycapture', a bod y Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd yn mynegi pryderon y Pwyllgor gyda swyddogion perthnasol Cyfoeth Naturiol Cymru.*

## 9 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod. Roedd Rhaglen Waith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys fel Atodiad 2 ac roedd tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor, a chynghori ar eu cynnydd â'u gweithredu, wedi'i atodi yn Atodiad 3 i'r adroddiad.

Roedd Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio wedi cyfarfod ar 9 Ionawr 2014 ac wedi cael cais i ystyried adroddiad mewn perthynas â'r Rhaglen Moderneiddio Addysg. Cytunodd yr Aelodau bod yr eitem hon yn cael ei chynnwys yn Rhaglen Waith y Pwyllgor i'w hystyried yng nghyfarfod mis Chwefror 2014, a bod yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd E.W. Williams, yn cael gwahoddiad i fod yn bresennol.

Ar ôl ystyried ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ddrafft ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, cytunodd y Pwyllgor y dylid gwneud y diwygiadau ac ychwanegiadau canlynol: -

**Mawrth 20, 2014: -** Sefydliadau Hyd Braich - Cytunodd yr Aelodau, o ystyried y gwaith a wneir gan Archwilio Mewnol bod Adroddiad Gwybodaeth yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2014, gydag adroddiad pellach yn cael ei gynnwys yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer mis Mehefin neu Orffennaf 2014.

Cyfeiriodd y Cynghorydd C. Hughes at Dudalen 2 o'r Diweddariad Gwybodaeth, Datblygu'r Economi Lleol. Eglurodd, o ran Canlyniad 5, bod gwybodaeth fwy diweddar ar gael mewn perthynas â ffigyrau incwm canolrif a'r ffigurau cyfrif hawlwyr (data ar gyfer canran y LSOA).

Gofynnodd yr Aelodau hefyd bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnal cyfarfodydd yn y dyfodol mewn lleoliadau ar draws y Sir.

***PENDERFYNWYD** - yn amodol ar y newidiadau a chytundebau uchod, cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

## 10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod ef a'r Cynghorydd D. Owens wedi mynychu cyfarfodydd y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion (SSMG).

Eglurodd y Cynghorydd G. Lloyd-Williams ei fod wedi mynychu Her Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden yn ddiweddar.

Gorffennodd y cyfarfod am 12.35pm.